

GORCHYMYN**CYNGOR SIR CEREDIGION**

DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984

DEDDF RHEOLI TRAFFIG 2004

GORCHYMYN CYNGOR SIR CEREDIGION (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A DADLWYTHO) 2019

Mae Cyngor Sir Ceredigion (y cyfeirir ato wedi hyn fel "y Cyngor"), wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 1, 2, 3, 4, 19, 32, 35, 45, 46, 47, 49, 53 a 124 a Rhan IV, Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd (y cyfeirir ati wedi hyn fel "Deddf 1984") a Deddf Rheoli Traffig 2004 (y cyfeirir ati wedi hyn fel "Deddf 2004") a'r holl bwerau eraill sy'n ei alluogi, a gyda chydysyniad blaenorol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chefnffyrdd yr A487 a'r A44, ac yn sgil ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III, Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

RHAN 1 – CYFFREDINOL**1. ENWI A CHYCHWYN**

- a) Enw'r gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019" ac fe ddaw i rym ar 23 diwrnod mis Ebrill 2019.
- b) Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys cynlluniau Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019 (y cyfeirir atynt wedi hyn fel "y Cynlluniau").

2. DIDDYMU A GWNEUD YN BARHAOL

Bydd y Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorchymynion rheoleiddio traffig canlynol:

1. Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) (Cydgrynhoi) 2012
2. Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) (Cydgrynhoi) 2012 (Gorchymyn Diwygio Rhif 1) 2013
3. Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) (Cydgrynhoi) 2012 (Heol Napier, Aberteifi a Theras Peterwell, Llanbedr Pont Steffan) (Gorchymyn Diwygio Rhif 2) 2016
4. Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) (Cydgrynhoi) 2012 (Rhodfa'r Felin, Aberteifi) (Gorchymyn Diwygio Rhif 3) 2016
5. Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) (Cydgrynhoi) 2012 (Feidrfair, Aberteifi) (Gorchymyn Diwygio Dros Dro Rhif 4) 2017
6. Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan) (Cyfyngu Dros Dro ar Lwytho / Dadlwytho a Chyfyngu ar Aros) 2018

Yn ogystal, bydd y Gorchymyn hwn yn gwneud y Gorchymynion canlynol yn rhai parhaol:

I certify that this is a true copy of the original document examined by me at the offices of
 Cyngor Sir Ceredigion County Council
 this 29th day of April 2019
 Solicitor,
 Cyngor Sir Ceredigion, Aberaeron SA46 0PA

Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd Aros) (Coedlan y Parc, Aberystwyth)
(Arbrofol) 2018

a rhannau o orchmynion rheoleiddio traffig sy'n gwahardd ac yn cyfyngu ar aros a llwytho neu ddadlwytho fel y bônt yn berthnasol i Ffyrdd Sirol a Chefnffyrdd fel y'u diffinnir yn yr atodlenni blaenorol i'r gorchmynion rheoleiddio traffig hynny a wnaethpwyd cyn y Gorchymyn hwn.

3. DEHONGLI A DIFFINIO

(a) Yn y Gorchymyn hwn, oni fydd y cyd-destun yn gofyn yn wahanol, mae i'r termau canlynol yr ystyron penodol a roddir iddynt drwy hyn.

Ystyr "Ar unrhyw adeg" yw 24 awr ar bob diwrnod calendr o'r flwyddyn lle nad ydy cynlluniau'r Gorchymyn hwn yn nodi cyfnod, neu ar bob diwrnod calendr yn ystod y cyfnod y cyfeirir ato yng nghynlluniau'r Gorchymyn hwn.

Ystyr "carafan neu garafan modur" yw unrhyw gerbyd a gynlluniwyd neu a addaswyd ar gyfer cysgu neu goginio.

Mae gan "Swyddog Gorfodi Sifil" yr un ystyr â'r hyn a roddir yn Rhan 6, Adran 76 Deddf Rheoli Traffig 2004.

Ystyr "y Cyngor" yw Cyngor Sir Ceredigion.

Mae "Cludo" a "Casglu" unrhyw nwyddau yn cynnwys gwirio'r nwyddau hynny at ddibenion eu cludo neu'u casglu.

Mae gan "Person anabl" a "bathodyn person anabl" yr un ystyr â'r hyn a roddir iddynt yn Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000.

Ystyr "Cerbyd person anabl" yw cerbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl yn gyfreithlon.

Ystyr "Trwydded Parcio i Feddyg" yw trwydded y mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei rhoi i Ymarferydd Meddygol sy'n caniatáu iddo ddefnyddio llefydd parcio i Feddygon â Thrwydded yn Unig fel y'u dynodir yn y Cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn.

Ystyr "Gyrrwr" mewn perthynas â cherbyd sy'n aros mewn lle parcio, ar ffordd neu ar ran o ffordd, yw'r person sy'n gyrru'r cerbyd ar yr adeg pan y'i gadawyd yn y lle parcio hwnnw, ar y ffordd honno neu ar y rhan honno o'r ffordd.

Mae "Nwyddau" yn cynnwys unrhyw fath o becynnau post.

Ystyr "Cerbyd Nwyddau" yw cerbyd modur neu drelar a adeiladwyd neu a addaswyd i gludo nwyddau neu lwyth.

Ystyr "Priffordd" yw ffordd y mae hawl tramwy cyhoeddus yn bodoli arni, hynny yw, hawl i holl ddeiliaid Ei Mawrhydi ymhob tymor o'r flwyddyn i fynd heibio a mynd heibio eilwaith yn ddirwysr, o'u gwirfodd ac fel y mynnont, ac mae'n cwmpasu holl led y briffordd gan gynnwys naill ai troedffordd neu droedffyrdd, neu ymyl ffordd a ffordd gerbydau a/neu unrhyw wastraff ochr y ffordd neu gyfuniad o'r rheiny, lle gall yna awdurdod priffordd arnywio lled perthnasol y pethau hynny.

Ystyr "Ffin y briffordd" yw holl led y briffordd, gan gynnwys naill ai troedffordd neu droedffyrdd, neu ymyl ffordd a ffordd gerbydau a/neu unrhyw wastraff ochr y ffordd neu gyfuniad o'r rheiny.

Ystyr "Lle parcio llwytho yn unig" yw unrhyw ochr neu ran o ffordd a nodir yng nghynlluniau'r Gorchymyn hwn lle gwaherddir gweithgareddau oni bai am lwytho a dadlwytho ar yr adegau a nodir.

Ystyr "Bws lleol" yw cerbyd gwasanaeth cyhoeddus a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth lleol, heb fod ar bleserdaith na thaith dywys.

Ystyr "Ymarferydd Meddygol" yw ymarferydd meddygol llwyr gofrestredig fel y'i diffinnir yn Neddf Feddygol 1983.

Mae gan "beic modur", "cerbyd i berson anabl" a "cerbyd teithwyr" yr un ystyr â'r hyn a ddiffinnir gan adran 136(4) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae gan "Cerbyd modur" yr un ystyr â'r hyn a ddiffinnir gan adran 136 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Ystyr "y Gorchymyn" yw Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019.

Ystyr "Bae parcio" yw'r arwynebedd y tu mewn i le parcio sydd wedi'i ddynodi fel lle i adael cerbydau, wedi'i nodi â'r marciau ffordd priodol.

Mae gan "Tramgwydd parcio" yr un ystyr â'r hyn a roddir iddo yn Neddf Rheoli Traffig 2004.

Mae gan "Disg parcio" yr un ystyr â'r hyn a roddir iddo yn Rheoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000.

Ystyr "Lle parcio" yw ffordd neu ran o ffordd a ddynodwyd fel lle i adael cerbydau ac sydd wedi'i nodi â marciau ffordd priodol.

Mae gan "Tâl Cosb" yr un ystyr â'r hyn a roddir iddo yn Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

Mae gan "Hysbysiad Tâl Cosb (PCN)" yr un ystyr â'r hyn a roddir iddo yn Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

Ystyr "Trwydded Parcio" yw trwydded parcio ddilys y mae'r Cyngor yn ei rhoi yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn ac unrhyw orchmynion eraill a wneir o dan y Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd, gan gynnwys unrhyw drwydded ddyblyg y mae'r Cyngor yn ei rhoi yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn.

Ystyr "Daliwr trwydded parcio" yw rhywun sydd wedi cael trwydded parcio ddilys yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn neu unrhyw orchmynion eraill a wneir o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Ystyr "Oriaiau a ganiateir" yw'r oriau hynny pan ganiateir parcio, fel y'u nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn.

Ystyr "Cynlluniau" yw'r cynlluniau hynny a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, gan gynnwys unrhyw Orchmynion Diwygio.

Mae gan "Cerbyd gwasanaeth cyhoeddus" yr un ystyr â'r diffiniad a roddir yn Neddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981.

Mae gan "Safle perthnasol" o ran bathodyn i bobl anabl yr un ystyr â'r hyn a roddir yn Rheoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000.

Mae gan "Safle perthnasol" o ran trwyddedau parcio a hepgoriadau yr ystyr canlynol:-

Bydd cerbyd yn dangos trwydded parcio neu hepgoriad yn unol â'r Gorchymyn yn y safle perthnasol ar yr amod:

- (i) ei fod wedi'i arddangos ar y ffenestr flaen neu ynddi, ar y forden flaen neu ar banel y cerbyd;
- (ii) pan nad oes borden flaen na phanel ar y cerbyd, bod y disg wedi'i arddangos mewn lle amlwg yn nhu blaen y cerbyd

fel bod modd darllen tu blaen y drwydded parcio neu'r hepgoriad yn eglur o du allan i'r cerbyd.

Mae gan "Taksi" yr un ystyr â'r hyn a roddir iddo yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.

Ystyr "Clirffordd tacsis" yw unrhyw ochrau neu rannau o'r ffyrdd a nodir yng nghynlluniau'r Gorchymyn hwn lle gwaherddir stopio ac eithrio tacsis yn ystod yr oriau cyfyngedig.

Ystyr "Safle tacsis" yw rhan o'r ffordd gerbydau a neilltuwyd ar gyfer tacsis sy'n aros i godi teithwyr.

Mae gan "Cyfarpar telathrebu" yr un ystyr â'r hyn a roddir iddo yn Atodlen 2 Deddf Telathrebu 1984.

Ystyr "Bws twristiaid" yw bws pleserdaith neu daith dywys, ac nid yw'n cynnwys bysiau lleol (heb fod ar bleserdaith na thaith dywys) sy'n darparu gwasanaeth lleol.

Ystyr "Arwydd traffig" yw arwydd o unrhyw faint, lliw a math fel a ragnodwyd ac a awdurdodwyd o dan Adran 64 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, neu sydd â'r un effaith â'r hyn a ragnodwyd ac a awdurdodwyd o dan yr adran honno o'r Ddeddf.

Ystyr "Hepgoriad" yw tystysgrif a roddir at ddibenion y Gorchymyn hwn gan y Cyngor neu ar ei ran, sydd yn caniatáu i gerbyd penodol aros mewn amgylchiadau penodol ar ran neu rannau o ffordd lle byddai'r cerbyd hwnnw fel arall yn destun gwaharddiad rhag aros neu gyfyngiad ar aros.

- (b) Lle cyfeirir at "Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho)" yn y cynlluniau sydd wedi'u hymgorffori yn y Gorchymyn hwn, ystyr hynny fydd Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019 a diwygiadau dilynol ohono.

- (c) At ddibenion y Gorchymyn hwn bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a geir yn Erthyglau ac Atodlenni'r Gorchymyn hwn a nodir yn y cynlluniau amgaeedig yn berthnasol i'r briffordd gyhoeddus yn ei chyfanrwydd.
- (d) At ddibenion y Gorchymyn hwn dylid cymryd bod cerbyd yn aros ar ddarn o'r ffordd os ydyw unrhyw ran o'r ffordd islaw'r cerbyd neu ei lwyth neu drelar (os yw'n bodoli).
- (e) Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a bennir drwy'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at, ac nid yn dirymu, unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a bennir drwy unrhyw Reoliadau neu orchmynion a wnaethpwyd dan Ddeddf 1984, neu sydd â'r un effaith â phetaent wedi'u gwneud o dan y Ddeddf honno, neu drwy neu o dan unrhyw ddeddfiad arall.
- (f) I ba bynnag raddau y mae unrhyw ddarpariaeth o'r Gorchymyn hwn yn gwrthdaro ag effaith unrhyw farc a roddwyd ar y ffordd gerbydau, fel y pennir yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 ("TSRGD") i gyfleu bodolaeth 'safle bws / clirffordd' yna effaith y marciau hynny a bodolaeth y safle bws / clirffordd fydd drechaf.
- (g) At ddibenion y Gorchymyn hwn, nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw anghywirdeb yn nata'r Arolwg Ordnans y dibynnwyd arno wrth lunio'r cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn. Lle bo gwaharddiad neu gyfyngiad mewn grym ar ran o ffordd gerbydau neu briffordd, bydd y gwaharddiad neu'r cyfyngiad hwnnw'n dal mewn grym hyd at ffin go iawn y briffordd, yn annibynnol ar unrhyw newidiadau naill ai yn lled y ffordd gerbydau neu'r briffordd, neu ddata gwaelodol yr Arolwg Ordnans.
- (h) Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad a wneir yn y Gorchymyn hwn at rif Erthygl, Paragraff, Adran neu Atodlen fel cyfeiriad at yr Erthygl, Paragraff, Adran neu Atodlen â'r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn, a bydd unrhyw gyfeiriad at Gynllun yn cyfeirio at Gynllun a ymgorfforwyd yn y Gorchymyn hwn.
- (i) Bydd Deddf Ddehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel y bo'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.
- (j) Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad a wneir yn y Gorchymyn hwn at ddeddfiad fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd gan unrhyw ddeddfiad dilynol.

RHAN 2 – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL SYDD A WNELONT Â GWAHARDD AROS, GWAHARDD LLWYTHO A DADLWYTHO A CHLIRFFYRDD SAFLEOEDD TACSIS

4. Ac eithrio darpariaethau Erthyglau 7, 9, 10, ac 11 y Gorchymyn hwn, ni chaiff neb, oni bai ei fod yn gweithredu'n unol â chyfarwyddyd neu ganiatâd gan Gwnstabl yr Heddlu yn ei lifrau neu Swyddog Gorfodi Sifil, beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd

(a/neu drelar y mae'n ei dynnu) aros ar y ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd a nodwyd eu bod yn destun cyfyngiadau Gwahardd Aros am y cyfnodau a nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn.

5. Ac eithrio darpariaethau Erthyglau 7 a 10 y Gorchymyn hwn, ni chaiff neb, oni bai ei fod yn gweithredu'n unol â chyfarwyddiadau neu ganiatâd gan Gwnstabl yr Heddlu yn ei lifrai neu Swyddog Gorfodi Sifil, beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd (a/neu drelar y mae'n ei dynnu) lwytho a dadlwytho ar y ffyrdd a nodwyd eu bod yn destun cyfyngiadau Gwahardd Llwytho am y cyfnodau a nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn.

6. Ac eithrio darpariaethau Erthyglau 8 a 10 y Gorchymyn hwn, ni chaiff neb, oni bai ei fod yn gweithredu'n unol â chyfarwyddyd neu ganiatâd gan Gwnstabl yr Heddlu yn ei lifrau neu Swyddog Gorfodi Sifil, beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd ac eithrio tacsï i stopio neu aros mewn safle tacsï ar y ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd a nodir eu bod yn destun cyfyngiadau Dim Stopio ac Eithrio Tacsï am y cyfnodau a nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn.

7. Ni fydd dim yn Erthyglau 4 a 5 y Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw ffordd neu ochrau'r ffyrdd a nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn am ba bynnag hyd o amser sydd ei angen er mwyn galluogi:

(a) person i esgyn i gerbyd neu ddisgyn ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho i gerbyd neu'u dadlwytho ohono, ar yr amod y cyflawnir y llwytho mewn un weithred ddi-dor ac na fydd unrhyw gerbyd yn aros fel hynny ar unrhyw ran o ffordd sy'n destun cyfyngiadau Gwahardd Llwytho yn ystod y cyfnodau a nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddiben cynnal a chadw neu wella neu ailadeiladu'r cyfryw rannau neu ochrau'r ffordd neu unrhyw waith sy'n gysylltiedig ag unrhyw garthffos, prif bibell ddŵr, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw gyfarpar telathrebu, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y cyfryw ddiben ar unrhyw ffordd arall;

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio wrth wasanaethu'r awdurdod lleol wrth gyflawni pwerau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y cyfryw ddiben ar unrhyw ffordd arall;

(e) y cerbyd i gael ei ddefnyddio gan ddarparwr y gwasanaeth (fel y diffinnir yn Adran 4(3) a (4) Deddf y Gwasanaethau Post 2000) at ddibenion dosbarthu a / neu gasglu post;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw argyfwng at ddibenion yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Ambiwlans neu Wylwyr y Glannau.

(g) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r eithriadau a ddisgrifir yn adran 87 Deddf 1984 neu unrhyw ran o Reoliadau Eithriadau Traffig Ffyrdd (Lluoedd Arbennig) (Amrywio a Diwygio) 2011.

(h) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn unrhyw achos lle:

(i) mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r person sy'n rheoli'r cerbyd stopio neu aros;

- (ii) mae'r person sy'n rheoli'r cerbyd yn gorfod stopio er mwyn atal damwain;
- (iii) mae'r person sy'n rheoli'r cerbyd angen cael gwared â rhywbeth sy'n rhwystro traffig;
- (iv) mae'r person sy'n rheoli'r cerbyd yn cael ei atal rhag mynd ymlaen gan amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

(i) y cerbyd i gael ei lwytho neu'i ddadlwytho pan wneir defnydd gwirioneddol ohono wrth symud dodrefn ac eiddo o un swyddfa neu annedd i'r llall, neu ddod â dodrefn ac eiddo i'r fath safle o storfa neu fynd â dodrefn ac eiddo o'r fath safle i storfa, ar yr amod na fydd unrhyw gerbyd yn aros fel hynny ar unrhyw ran o ffordd sy'n destun cyfyngiadau Gwahardd Llwytho yn ystod y cyfnodau a nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn;

(j) cerbyd diogelwch, sef cerbyd wedi'i ddylunio'n benodol at y diben hwnnw, i gael ei ddefnyddio wrth ddosbarthu arian parod i safleoedd neu'i gasglu ohonynt;

(k) y cerbyd i gael ei ddefnyddio fel rhan o orymdaith briodas neu angladd cyn belled â bod unrhyw aros yn rhesymol angenrheidiol mewn cysylltiad â phriodas neu angladd.

8. Ni fydd dim yn Erthygl 6 y Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw ffordd neu ochrau neu rannau o ffordd a nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn cyn belled ag y gallai hynny fod yn angenrheidiol er mwyn galluogi:

(a) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddiben cynnal a chadw neu wella neu ailadeiladu'r cyfryw rannau neu ochrau o'r ffordd neu unrhyw waith sy'n gysylltiedig ag unrhyw garthffos, prif bibell ddŵr, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw gyfarpar telathrebu, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y cyfryw ddiben ar unrhyw ffordd arall;

(b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio wrth wasanaethu'r awdurdod lleol wrth gyflawni pwerau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y cyfryw ddiben ar unrhyw ffordd arall;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw argyfwng at ddibenion yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Ambiwlans neu Wylwyr y Glannau;

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r eithriadau a ddisgrifir yn adran 87 Deddf 1984 neu unrhyw ran o Reoliadau Eithriadau Traffig Ffyrdd (Lluoedd Arbennig) (Amrywio a Diwygio) 2011.

(e) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn unrhyw achos lle:

- (i) mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r person sy'n rheoli'r cerbyd stopio neu aros;
- (ii) mae'r person sy'n rheoli'r cerbyd yn gorfod stopio er mwyn atal damwain;
- (iii) mae'r person sy'n rheoli'r cerbyd angen cael gwared â rhywbeth sy'n rhwystro traffig;
- (iv) mae'r person sy'n rheoli'r cerbyd yn cael ei atal rhag mynd ymlaen gan amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

9. (a) Ni fydd dim yn Erthygl 4 y Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n arddangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr neu rywun arall sy'n rheoli'r cerbyd wedi nodi arno'r amser pan gychwynnodd y cyfnod o aros) aros ar unrhyw rannau o'r ffyrdd y cyfeirir atynt yn yr Erthygl honno am gyfnod nad yw'n hwy na thair awr (heb fod yn gyfnod sydd wedi'i wahanu â llai nag un awr o egwyl o'r cyfnod diwethaf y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un rhan o'r ffordd).

(b) Bydd yn anghyfreithlon i rywun sy'n arddangos bathodyn person anabl aros ar unrhyw rannau o'r ffyrdd a nodir yn Erthyglau 5 a 6 y Gorchymyn hwn.

10. Ni fydd dim yn Erthygl 4, 5 na 6 y Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag peri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw rannau o'r ffyrdd y cyfeirir atynt yn yr Erthygl dan sylw, ar yr amod y cafwyd caniatâd Cyngor Sir Ceredigion ar ffurf hepgoriad (yn amodol ar Erthygl 46) a gaiff ei arddangos yn nhu blaen neu ochr i mewn y cerbyd, ac a fydd yn cynnwys manylion i alluogi rhywun i gysylltu â'r gyrrwr mewn argyfwng, ar yr amod na achosir rhwystr drwy wneud hynny, ac ar yr amod y symudir y cerbyd pe bai Swyddog yr Heddlu yn ei lifrai neu Swyddog Gorfodi Sifil yn gofyn i'r gyrrwr wneud hynny.

11. Ni fydd dim yn Erthygl 4 y Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i darsi stopio neu aros ar unrhyw rannau o'r ffyrdd sy'n destun cyfyngiadau Gwahardd Aros Ac Eithrio Tacsis am y cyfnodau a nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn.

RHAN 3 – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL SYDD A WNELONT Â LLEFYDD PARCIO

12. Mae'r rhannau hynny o'r ffyrdd a ddynodir ar gyfer Aros Cyfyngedig neu fel Lle Parcio yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn wedi'u hawdurdodi, yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn, i gael eu defnyddio gan fath penodol o gerbyd, ac os na nodir unrhyw fath penodol, pob math o gerbyd, ar ba bynnag ddiwrnodau ac yn ystod pa bynnag oriau a ganiateir fel y nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn, ac yn llwyr o fewn ffiniau'r lle parcio neu'r bae parcio ac yn y fath safle a ddynodir gan y marciau priodol ar y ffordd.

13. (a) Ni fydd dim yn Erthygl 12 y Gorchymyn hwn yn cyfyngu ar rym y Cyngor, er mwyn atal rhwystrau ar y strydoedd, ar achlysur unrhyw farchnadoedd neu ffeiriau cyhoeddus neu unrhyw orymdeithio, dathlu neu oleuadau cyhoeddus, neu lle mae strydoedd yn orlawn neu'n debygol o ddioddef tagfa, i gau unrhyw le parcio neu unrhyw ran ohono;

(b) Ni fydd dim yn Erthygl 12 y Gorchymyn hwn yn atal y Cyngor, drwy arddangos hysbysiad ar unrhyw le parcio neu'n gyfagos, rhag:

(i) cau'r cyfryw le parcio neu unrhyw ran ohono am ba bynnag gyfnod tra cyflawnir unrhyw waith yno neu'n gyfagos neu pan fydd yn ofynnol defnyddio'r lle parcio hwnnw neu unrhyw ran ohono at ryw ddiben arbennig;

(ii) neilltuo unrhyw ran neu rannau o'r lle parcio hwnnw dim ond at ddefnydd cerbydau wedi'u hawdurdodi'n arbennig ar bob diwrnod neu ar

rai diwrnodau penodol neu yn ystod rhai adegau penodol o rai diwrnodau penodol.

14. Ni fydd dim yn Erthygl 12 y Gorchymyn hwn â'r effaith o atal unrhyw berson rhag peri i unrhyw gerbyd aros ar y rhannau o'r ffyrdd a nodir yn yr Erthygl honno (ac eithrio lle parcio neu ran ohono yr ataliwyd ei ddefnyddio yn unol ag Erthygl 41) os defnyddir y cerbyd mewn cysylltiad â'r darpariaethau a geir yn Erthyglau 7(c), 7(d), 7(f), 7(g), 7(h) a 7(j) y Gorchymyn hwn.

15. Lle nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn y dynodwyd ffordd neu ochrau o ffordd i fod ar gael i gerbydau o fath penodol, mewn safle penodol, neu ar ddiwrnod neu amser penodol, ni chaiff gyrrwr cerbyd ganiatáu iddo aros oni bai fod y cerbyd hwnnw o'r math penodol ar gyfer y diwrnod a / neu'r amser dan sylw.

16. (a) Ni chaiff gyrrwr cerbyd ganiatáu iddo aros mewn lle parcio am gyfnod hwy na'r uchafswm a ganiateir ar gyfer aros yn y lle parcio hwnnw, fel y nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn; a

(b) phan fo cerbyd wedi ymadael â lle parcio ar ôl bod yn aros yno, ni chaiff gyrrwr y cerbyd hwnnw, o fewn y cyfnod a nodir mewn perthynas â'r cyfryw le parcio, ac fel y nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn, ar ôl ymadael â'r lle parcio hwnnw, ganiatáu iddo aros eto yn y lle parcio hwnnw.

17. Yn amodol ar Erthygl 15, bydd gyrrwr cerbyd sydd yn gerbyd i berson anabl, sydd yn arddangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl, yn cael ei eithrio o unrhyw gyfyngiad amser wrth adael y cerbyd mewn lle parcio (heb fod yn lle parcio dynodedig ar gyfer Llwytho yn Unig, Dalwyr Bathodynau i'r Anabl yn Unig neu Ddalwyr Trwydded Parcio i Feddygon) a nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn.

18. Caiff gyrrwr cerbyd sy'n arddangos yn ei du blaen neu'r ochr i mewn hepgoriad dilys (yn amodol ar Erthygl 46) a roddwyd gan y Cyngor ei eithrio o unrhyw gyfyngiad amser neu gyfyngiad ar fath penodol o gerbyd ar y rhannau o'r ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd a ddynodir ar gyfer Aros Cyfyngedig neu fel Llefydd Parcio yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn pan y'i gadewir mewn lle parcio.

19. Ni chaiff neb ddefnyddio cerbyd, tra bydd mewn lle parcio, mewn cysylltiad â gwerthu unrhyw nwydd i bobl yn y lle parcio neu'n gyfagos, neu mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig ar log ei grefft neu'i wasanaethau, oni bai bod y cerbyd yn arddangos Trwydded Masnachu ar y Stryd a roddwyd gan y Cyngor, a bod y cerbyd yn cael ei weithredu yn unol ag amodau'r cyfryw drwydded.

RHAN 4 – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL SYDD A WNELONT Â LLEFYDD PARCIO LLWYTHO YN UNIG

20. Mae'r rhannau hynny o'r ffyrdd a ddynodir ar gyfer Llwytho yn Unig yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn, wedi'u hawdurdodi, yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn, i gael eu defnyddio gan fath penodol o gerbyd, ac os na nodir unrhyw fath penodol, pob math o gerbyd, ar ba bynnag ddiwrnodau ac yn ystod pa bynnag oriau a ganiateir fel y nodir yn y cynlluniau sy'n

amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn, ac yn y fath safle a ddynodir gan y marciau priodol ar y ffordd at ddiben llwytho a dadlwytho yn unig.

21. (a) Ni fydd dim yn Erthygl 20 y Gorchymyn hwn yn cyfyngu ar rym y Cyngor, er mwyn atal rhwystrau ar y strydoedd, ar achlysur unrhyw farchnadoedd neu ffeiriau cyhoeddus neu unrhyw orymdeithio, dathlu neu oleuadau cyhoeddus, neu lle mae strydoedd yn orlawn neu'n debygol o ddioddef tagfa, i gau unrhyw le parcio neu unrhyw ran ohono;

(b) Ni fydd dim yn Erthygl 20 y Gorchymyn hwn yn atal y Cyngor, drwy arddangos hysbysiad ar unrhyw le parcio llwytho yn unig neu'n gyfagos, rhag:

(i) cau'r cyfryw le parcio llwytho yn unig neu unrhyw ran ohono am ba bynnag gyfnod tra cyflawnir unrhyw waith yno neu'n gyfagos neu pan fydd yn ofynnol defnyddio'r cyfryw le parcio llwytho yn unig neu unrhyw ran ohono at ryw ddiben arbennig;

(ii) neilltuo unrhyw ran neu rannau o'r lle parcio hwnnw dim ond at ddefnydd cerbydau wedi'u hawdurdodi'n arbennig ar bob diwrnod neu ar rai diwrnodau penodol neu yn ystod rhai adegau penodol o rai diwrnodau penodol.

22. Ni fydd dim yn Erthygl 20 y Gorchymyn hwn â'r effaith o atal unrhyw berson rhag peri i unrhyw gerbyd aros ar y rhannau o'r ffyrdd a nodir yn yr Erthygl honno os defnyddir y cerbyd mewn cysylltiad â'r darpariaethau a geir yn Erthyglau 7(c), 7(d), 7(f), 7(g) a 7(j) y Gorchymyn hwn.

23. Lle nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn y dynodwyd ffordd neu ochrau'r ffordd i fod ar gael i gerbydau o fath penodol, mewn safle penodol, neu ar ddiwrnod neu amser penodol, ni chaiff gyrrwr cerbyd ganiatáu iddo llwytho neu ddadlwytho oni bai fod y cerbyd hwnnw o'r math penodol ar gyfer y diwrnod a / neu'r amser dan sylw.

24. (a) Ni chaiff gyrrwr cerbyd ganiatáu iddo aros mewn lle parcio llwytho yn unig am gyfnod hwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi nwyddau i gael eu llwytho i gerbyd neu'u dadlwytho ohono a heb fod yn hwy nag uchafswm y cyfnod a ganiateir ar gyfer aros yn y cyfryw le parcio llwytho yn unig, fel y nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn; a

(b) phan fo cerbyd wedi ymadael â lle parcio llwytho yn unig ar ôl bod yn aros yno, ni chaiff gyrrwr y cerbyd hwnnw, o fewn y cyfnod a nodir mewn perthynas â'r cyfryw le parcio, ac fel y nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn, ar ôl ymadael â'r lle parcio hwnnw, ganiatáu iddo aros eto yn y cyfryw le parcio llwytho yn unig.

25. Caiff gyrrwr cerbyd sy'n arddangos yn ei du blaen neu'r ochr i mewn hepgoriad dilys (yn amodol ar Erthygl 46) a roddwyd gan y Cyngor ei eithrio o unrhyw gyfyngiad amser neu gyfyngiad ar fath penodol o gerbyd ar y rhannau o'r ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd a ddynodir ar gyfer Llwytho yn Unig yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn pan y'i gadewir mewn lle parcio llwytho yn unig.

RHAN 5 – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL SYDD A WNELONT Â LLEFYDD PARCIO I DDEILIAID TRWYDDED PARCIO I FEDDYGON YN UNIG

26. Mae'r rhannau hynny o'r ffyrdd a ddynodir ar gyfer Deiliaid Trwydded Parcio i Feddygon yn Unig yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn wedi'u hawdurdodi, yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn, i gael eu defnyddio dim ond gan gerbydau sy'n arddangos yn y safle perthnasol Drwydded Parcio i Feddyg ar gyfer y cerbyd a'r lle parcio dan sylw, ar ba bynnag ddiwrnodau ac yn ystod yr oriau a ganiateir fel y nodir yn y cynlluniau sy'n amgaeedig gyda'r Gorchymyn hwn ac yn y fath safle a ddynodir gan y marciau priodol ar y ffordd.

27. (a) Ni fydd dim yn Erthygl 26 y Gorchymyn hwn yn cyfyngu ar rym y Cyngor, er mwyn atal rhwystrau ar y strydoedd, ar achlysur unrhyw farchnadoedd neu ffeiriau cyhoeddus neu unrhyw orymdeithio, dathlu neu oleuadau cyhoeddus, neu lle mae strydoedd yn orlawn neu'n debygol o ddioddef tagfa, i gau unrhyw le parcio neu unrhyw ran ohono;

(b) Ni fydd dim yn Erthygl 26 y Gorchymyn hwn yn atal y Cyngor, drwy arddangos hysbysiad ar unrhyw le parcio i ddalwyr trwydded parcio i feddygon yn unig, rhag:

(i) cau'r cyfryw le parcio i ddalwyr trwydded parcio i feddygon yn unig neu unrhyw ran ohono am ba bynnag gyfnod tra cyflawnir unrhyw waith yno neu'n gyfagos neu pan fydd yn ofynnol defnyddio'r cyfryw le neu unrhyw ran ohono at ryw ddiben arbennig;

(ii) neilltuo unrhyw ran neu rannau o'r lle parcio hwnnw dim ond at ddefnydd cerbydau wedi'u hawdurdodi'n arbennig ar bob diwrnod neu ar rai diwrnodau penodol neu yn ystod rhai adegau penodol o rai diwrnodau penodol.

28. Ni fydd dim yn Erthygl 26 y Gorchymyn hwn â'r effaith o atal unrhyw berson rhag peri i unrhyw gerbyd aros ar y rhannau o'r ffyrdd a nodir yn yr Erthygl honno os defnyddir y cerbyd mewn cysylltiad â'r darpariaethau a geir yn Erthyglau 7(c), 7(d), 7(f) a 7(g) y Gorchymyn hwn.

29. (a) Gall ymarferydd meddygol wedi cymhwyso'n gyfreithiol wneud cais i'r Cyngor am drwydded parcio ar gyfer pob cerbyd a gaiff ei nodi yn y cais, a dylid gwneud unrhyw gais fel hynny ar ffurflen a ddarperir gan y Cyngor a dylid cynnwys yr wybodaeth benodol a'r dilysiad y mae'n ofynnol eu nodi ar y ffurflen.

(b) Gall y Cyngor ar unrhyw adeg ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd am drwydded parcio neu ddaliwr trwydded parcio gyflwyno i swyddog o'r Cyngor dystiolaeth o ran y cais neu'r drwydded parcio, yn unol â gofynion y swyddog, ac i wirio unrhyw fanylion neu wybodaeth fel y bo'n rhesymol ofynnol i wirio bod y drwydded parcio'n ddilys.

(c) Wrth dderbyn cais a wnaethpwyd yn briodol dan ddarpariaethau blaenorol yr Erthygl hon ac ar ôl derbyn y taliadau priodol fel y'u pennwyd gan y Cyngor, gall y Cyngor gyflwyno trwydded neu drwyddedau parcio i'r ymgeisydd ar gyfer gadael yn ystod yr oriau a ganiateir yn y lle parcio a nodir yn y cais y fath gerbydau a nodir yn y cais, fel y bônt yn fodlon y cânt eu defnyddio gan ymarferwyr meddygol wedi cymhwyso'n gyfreithiol sydd yn agored i gael eu galw, o raid, i argyfyngau i ffwrdd o'r feddygfa neu'r ystafell ymgynghori a nodir yn y cais, i'r graddau bod cyfiawnhad o'r angen am drefniadau parcio

arbennig, ac sydd heb gyfleusterau parcio addas eraill ar gael iddynt o fewn pellter rhesymol.

30. (a) Gall daliwr trwydded parcio ildio trwydded parcio i'r Cyngor ar unrhyw adeg a bydd yn ildio trwydded parcio i'r Cyngor pe bai unrhyw un o'r digwyddiadau a nodir yn Erthygl 31(c) y Gorchymyn hwn yn digwydd, neu yn unol â darpariaethau Erthygl 31(e) y Gorchymyn hwn.

(b) Gall y Cyngor, drwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i ddaliwr y drwydded parcio drwy anfon hwnnw drwy'r gwasanaeth post cofrestredig at ddaliwr y drwydded parcio yn y cyfeiriad y mae'r person hwnnw wedi'i nodi yn y cais am drwydded parcio, neu unrhyw gyfeiriad arall y credir ei fod yn gartref i'r person hwnnw, dynnu trwydded parcio yn ôl os ymddengys i'r Cyngor bod unrhyw un o'r digwyddiadau a nodir yn Erthygl 31(c) y Gorchymyn hwn wedi digwydd a bydd daliwr y drwydded parcio yn ildio'r drwydded parcio honno i'r Cyngor ymhen 48 awr ar ôl derbyn y cyfryw rybudd.

(c) Y digwyddiadau y cyfeirir atynt yn darpariaethau blaenorol yr Erthygl hon yw:-

(i) y cerbyd neu unrhyw gerbyd y rhoddwyd trwydded parcio ar ei gyfer yn peidio â chael ei ddefnyddio gan ymarferwyr meddygol wedi cymhwyso'n gyfreithiol sydd yn agored i gael eu galw, o raid, i argyfyngau i ffwrdd o'r feddygfa neu'r ystafell ymgynghori a nodir yn y cais, i'r graddau bod modd cyfiawnhau'r angen am drefniadau parcio arbennig;

(ii) dirymu dynodiad y lle parcio y rhoddwyd y drwydded parcio ar ei gyfer;

(iii) cyflwyno trwydded parcio wedi'i diwygio neu drwydded parcio ddyblyg gan y Cyngor;

(iv) y drwydded parcio yn peidio â bod yn ddilys o dan ddarpariaethau Erthygl 31(d) y Gorchymyn hwn.

(d) Heb ragfarn i ddarpariaethau blaenorol yr Erthygl hon, bydd trwydded parcio yn peidio â bod yn ddilys pan ddaw'r cyfnod a nodir arni i ben (ac ni fydd y cyfnod hwnnw'n hwy na 12 mis o ddechrau'r mis pan ddaeth yn ddilys yn gyntaf), neu pe digwyddai unrhyw un o'r digwyddiadau a nodir yn Erthygl 31 y Gorchymyn hwn, pa un bynnag sydd gynharaf.

(e) Lle cyflwynir trwydded parcio sy'n berthnasol i le parcio yn unol ag Erthygl 30(c) y Gorchymyn hwn i unrhyw berson ar ôl derbyn siec, a bod y siec honno heb ei thalu wedi hynny, bydd yr holl drwyddedau parcio fel y bônt yn berthnasol i'r lle parcio hwnnw yn peidio â bod ag unrhyw effaith a bydd y Cyngor, drwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i ddaliwr y drwydded parcio drwy anfon hwnnw drwy'r gwasanaeth post cofrestredig at ddaliwr y drwydded parcio yn y cyfeiriad y mae'r person hwnnw wedi'i nodi yn y cais am drwydded neu drwyddedau parcio, neu unrhyw gyfeiriad eraill y credir ei fod yn gartref i'r person hwnnw, yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r person hwnnw ildio pob trwydded parcio i'r Cyngor ymhen 48 awr ar ôl derbyn y cyfryw Rybudd.

31. (a) (i) Gall daliwr trwydded parcio ar unrhyw adeg wneud cais i'r Cyngor am ddiwygio trwydded parcio a roddwyd iddo fel ei bod yn berthnasol i gerbyd arall neu gerbyd ychwanegol neu'r ddau, a bod y cerbyd hwnnw ym mha bynnag achos yn cael ei ddefnyddio gan ymarferydd meddygol wedi

cymhwyso'n gyfreithiol sydd yn agored i gael ei alw, o raid, i argyfyngau i ffwrdd o'r feddygfa neu'r ystafell ymgynghori a nodir yn y cais, i'r graddau bod cyfiawnhad o'r angen am drefniadau parcio arbennig.

(ii) Wrth dderbyn cais yn unol ag Erthygl 32(a)(i) y Gorchymyn hwn i ddiwygio trwydded parcio, gall y Cyngor ddiwygio'r drwydded parcio yn unol â'r cais, neu i ba bynnag raddau'n llai na hynny fel y credant sy'n addas, neu roi, fel y barno'r Cyngor yn ddoeth, trwydded parcio wedi'i diwygio, ac os rhoddir trwydded parcio wedi'i diwygio yn y fath fodd, daw'r drwydded parcio yn annilys a chaiff ei hildio i'r Cyngor.

(b) Os caiff trwydded parcio ei llurgunio, neu'i difwyno drwy ddamwain, neu os yw'r ffigurau neu'r manylion arni wedi mynd yn annealladwy, neu os yw lliw'r drwydded parcio wedi newid drwy bylu neu rywbeth arall, bydd daliwr y drwydded parcio naill ai yn ei hildio i'r Cyngor neu'n gwneud cais i'r Cyngor am roi iddo/iddi drwydded parcio ddyblyg a bydd y Cyngor, ar ôl derbyn y drwydded parcio, yn rhoi trwydded parcio ddyblyg wedi'i marcio fel hynny, ac wrth wneud hynny fe ddaw'r drwydded parcio yn ddilys.

(c) Os caiff trwydded parcio ei cholli neu'i dinistrio, gall daliwr y drwydded parcio wneud cais i'r Cyngor am roi iddo/iddi drwydded parcio ddyblyg a bydd y Cyngor, ar ôl cael ei fodloni bod y drwydded parcio wedi'i cholli neu'i dinistrio, yn rhoi trwydded parcio ddyblyg wedi'i marcio fel hynny, ac wrth wneud hynny fe ddaw'r drwydded parcio yn annilys.

(d) Bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i drwydded parcio wedi'i diwygio neu drwydded parcio ddyblyg, a chais am hynny, yn yr un modd â phe bai'n drwydded parcio, neu yn ôl fel y digwydd, yn gais am hynny.

32. (a) Bydd gan ddaliwr trwydded parcio sy'n ildio i'r Cyngor yr holl drwyddedau parcio a roddwyd iddo ar gyfer lle parcio penodol cyn iddynt ddod yn ddilys yr hawl i gael ad-daliad o'r tâl a dalwyd mewn cysylltiad â rhoi'r trwyddedau parcio hynny.

(b) Bydd gan ddaliwr trwydded parcio sy'n ildio i'r Cyngor yr holl drwyddedau parcio a roddwyd iddo ar gyfer lle parcio penodol ar ôl iddynt ddod yn ddilys yr hawl i gael ad-daliad rhannol o'r tâl a dalwyd mewn cysylltiad â rhoi'r trwyddedau parcio hynny, wedi'i gyfrifo yn unol â darpariaethau Erthygl 33(c) y Gorchymyn hwn.

